# Cenn@d

8 Gorffennaf 2026
Rhifyn 280

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG
a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru


## Ny Ako o Fadagascar ar daith yng Nghymru









Mae grŵp o berfformwyr o Fadagascar, Ny Ako, yn teithio ledled Cymru ar hyn o bryd, gan gyflwyno cyngherddau mewn capeli ac ysgolion sy'n dathlu diwylliant eu gwlad drwy gerddoriaeth, dawns, iaith ac offerynnau traddodiadol. Trefnwyd y daith gan Miara Rabearisoa, brodor o Fadagascar sydd bellach yn byw ac yn gweithio yng Nghymru, fel rhan o daith Ewropeaidd ehangach. Mae'r cyngherddau'n rhad ac am ddim ac eisoes wedi ymweld â sawl cymuned, gyda rhagor o berfformiadau wedi'u trefnu cyn diwedd y daith.

Gobaith Miara yw rhoi cyfle i bobl Cymru brofi diwylliant Madagascar, ond hefyd dynnu sylw at y cysylltiad hanesyddol dwfn rhwng y ddwy wlad. Yn ôl Miara, dechreuodd y cysylltiad agos gyda Chymru ym 1818 pan deithiodd dau genhadwr ifanc o Geredigion, David Jones a Tomos Bevan, i Fadagascar i ledaenu'r Efengyl yno. Cred Miara fod eu cefndir gwledig, eu hieithoedd a'u parodrwydd i ddysgu Falagasi wedi cyfrannu at eu llwyddiant ymhlith y bobl leol. Ymunodd David Griffiths o Sir Gâr â'r gwaith cenhadol ym 1821. Bu'r cenhadon yn addysgu'r teulu brenhinol a'r bobl gyffredin, yn sefydlu ysgolion ac yn datblygu'r iaith Falagasi ysgrifenedig. Fe wnaethant hefyd gyfieithu nifer o lyfrau, gan gynnwys y Beibl, a hwn oedd y cyfieithiad cyntaf o'r Beibl i iaith Affricanaidd ar y pryd. Mae eu dylanwad yn parhau i'w weld heddiw, gyda thua 70% o boblogaeth Madagascar yn Gristnogion a rhai ysgolion yn dal i gario enwau'r cenhadon Cymreig.

Mae'r cysylltiad hwn wedi'i adlewyrchu yn ystod y daith, gan gynnwys perfformiad arbennig o'r emyn-dôn 'Gwahoddiad', lle canodd Côr Meibion y Drenewydd yn Gymraeg ac aelodau Ny Ako yn yr iaith Falagasi. Mae'r emyn yn adnabyddus yn y ddwy wlad ac yn symbol o'r berthynas unigryw rhyngddynt.

Dyma'r bumed daith y mae Miara wedi'i threfnu i Ny Ako yng Nghymru. Mae'r criw yn ymweld â phentrefi bach yn ogystal â dinasoedd, er mwyn sicrhau bod pobl o bob rhan o'r wlad yn cael cyfle i brofi diwylliant Madagascar. Mae'r perfformiadau'n llawn lliw, rhythm ac egni, gan adlewyrchu traddodiadau bywiog y wlad.

Mae Miara, ei wraig, Rebecca, a'u merched, Hannah a Seren, bellach yn byw yn Nhrefaldwyn.


Gair am *Cristion* — Tudalen 3

Anna Jane Evans yn Nhaiwan — Tudalen 4

Cyrsiau Haf Coleg y Bala — Tudalen 5

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt



## Adnoddau Cymraeg i'n helpu ni i weddïo

Bydd rhai ohonoch yn gwybod mod i'n cael y fraint o wasanaethu fel Llywydd adran Gymraeg y Bedyddwyr eleni. Fel rhan o'r rôl yma, dwi wedi addo ymgyrchu i gael mwy o adnoddau Cristnogol ar gael yn yr iaith Gymraeg. Felly, roeddwn i wrth fy modd pan wnaeth un o fy nghyn-fyfyrwyr, y Parchedig Lisa Isaacs, gysylltu â fi i sôn am ei gwaith gydag Adnewyddu Lles.




### *Beth yw Adnewyddu Lles, Lisa?*

Mannau tebyg i gaffi mewn adeilad eglwysig, mewn caffi lleol, neu mewn adeilad cymunedol yw canolfannau Adnewyddu Lles. Maen nhw'n llefydd lle gallwch chi ddod i rannu hobi, dysgu sgìl newydd, a chysylltu – lle i berthyn, lle rydych chi'n cael eich adnabod wrth eich enw ac nid eich label. Mae'r mannau yma'n cael eu rhedeg gan eglwys leol, yn gweithio mewn partneriaeth â thimau iechyd meddwl lleol a/neu gyrff proffesiynol eraill. Mae pob lleoliad Adnewyddu wedi'i sefydlu o amgylch lle tawel â rhythm gweddi, lle mae pawb yn gyfartal ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Mewn cenedl lle mae lles meddyliol ac emosiynol yn bryder gwirioneddol a chynyddol, mae Adnewyddu Lles yn annog, yn cefnogi ac yn rhoi'r offer i eglwysi i sefydlu mannau bychain, tebyg i gaffi, lle gall unrhyw un fod yn rhan o gymuned gynhwysol. Bod yn bresennol, bod yn weddigar, a gweithio mewn partneriaeth â thimau iechyd meddwl yw'r tair egwyddor syml y tu ôl i bob lleoliad Adnewyddu.

### *Beth sy'n digwydd mewn lleoliad Adnewyddu Lles bob wythnos?*

Mae sesiynau Adnewyddu Lles yn gallu bod yn wahanol mewn gwahanol lefydd. Mae'n dibynnu ar y bobl sy'n mynd yno, ble rydych chi'n cynnal y sesiwn a'ch cyd-destun lleol. Fel arfer, mewn sesiwn Adnewyddu, mae crefftau/hobïau ar gael, neu gall pobl ddod â'u hobïau eu hunain i'w rhannu. Gallwch ddarparu pethau eraill fel gemau bwrdd, posau, neu ddeunydd lliwio, ac mae bwrdd tennis bwrdd neu fwrdd pŵl mewn rhai llefydd. Eto, mae hyn yn dibynnu ar yr adeilad sy'n cael ei ddefnyddio.

Mi fydd pobl yn gallu gwneud gwahanol weithgareddau yn ystod y sesiwn, gan fwynhau sgwrsio, a hefyd yn cael rhyw fath o luniaeth i'w yfed neu ei fwyta. Bydd man tawel i weddïo ar gael ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno hynny yn ystod y sesiwn; gall hwn fod yn fwrdd, yn ardal benodedig, neu'n ystafell arall. Yn ystod y sesiwn bydd amser o weddi dan arweiniad ar gyfer y bobl sydd eisiau ymuno (nid yw hyn yn orfodol). Mae'r amser hwn o weddïo yn dilyn rhythmau gweddi y mae Adnewyddu Lles yn eu darparu, a byddwn hefyd yn edrych ar adnod o salm yr wythnos (mae Adnewyddu Lles yn rhannu hon bob wythnos). Fel y gallwch weld, fe allwch wneud llawer o wahanol bethau mewn sesiwn Adnewyddu, ond mae'r egwyddorion o fod yn bresennol, bod yn weddigar a bod mewn partneriaeth yn amlwg.

### *Mae'n swnio'n grêt – ond ydy'r adnoddau ar gael yn y Gymraeg?*

Rydym yn falch ein bod nawr yn gallu darparu adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer unrhyw eglwys sydd eisiau rhedeg man Adnewyddu Lles yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r holl adnoddau hyfforddiant nawr ar gael yn Gymraeg, sy'n hwyluso unrhyw eglwys sydd eisiau sefydlu a hyfforddi i fod yn lleoliad Cymraeg/dwyieithog. Mae ein rhythmau gweddïo a'r holl gardiau salmau ar gael yn Gymraeg ar ffurf copïau caled neu'n ddigidol. Hefyd mae llawer o bosteri a thaflenni hysbysebu gennym yn Gymraeg, er mwyn i chi allu rhannu a hysbysebu eich canolfan. Fe all cydlynydd Cymru ar gyfer Adnewyddu Lles (sef Lisa ei hun!) roi mwy o wybodaeth i chi am hyn i gyd.

Os hoffech chi wybod rhagor am yr adnoddau Cymraeg newydd hyn, ebostiwch Lisa Isaac: lisa@renewwellbeing.org.uk.

Mae adnoddau Cymraeg ar gael ar y wefan:

https://www.renewwellbeing.org.uk/resources/prayer-meditation/meditation-cards-in-welsh

Gwefan yr elusen yw: https://www.renewwellbeing.org.uk/



# Gair gan *Cristion*




Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y cylchgrawn *Cristion*, dan gadeiryddiaeth y Parchg Ddr Elwyn Richards, gyda'r Parchg Jennie Hurd yn gweithredu fel Ysgrifennydd, a Mr Rhys Jones fel trysorydd. Roedd tymor y tri ohonynt yn dirwyn i ben, a diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth ffyddlon.

Wedi trafodaeth, etholwyd y Parchg Eirian Wyn Lewis yn Gadeirydd am y tair blynedd nesaf, a Mrs Barbara Williams yn Ysgrifennydd. Yn anffodus, hyd yma, nid ydym wedi llwyddo i sicrhau trysorydd, ac apeliwn am gymorth. Tybed oes yna rywun o blith darllenwyr *Cenn@d* a fyddai'n barod i gynorthwyo?

Diolchwyd i Eurfyl Lewis a Sian Elin Thomas am eu gwaith fel golygyddion diwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Cyflwynwyd copi proflen o rifyn mis Gorffennaf gan Aled, oedd wedi ei godi o wasg y Lolfa ar y ffordd i lawr i Aberystwyth, sef rhifyn yr Eisteddfod, â llun John 'Cwmbetws' Davies ar y clawr. Fe'n hatgoffwyd bod y golygyddion wedi cyflawni dwy flynedd o'u tymor golygyddol, a byddai angen rhywun i afael yn y tresi ymhen y flwyddyn.

Penderfynwyd mai gwahodd golygyddion i gyflawni tymor o flwyddyn yr un fyddai'r drefn o hyn ymlaen, a chytunwyd y byddai'r Parchg Beti-Wyn James yn gyfrifol am y flwyddyn gyntaf. Penderfynwyd y byddai Aled Davies yn gweithredu fel is-olygydd, gan gefnogi yn y cefndir, ac yn ddolen gyswllt wrth drosglwyddo'r olygyddiaeth o flwyddyn i flwyddyn.

Nodwyd bod nifer y tanysgrifwyr yn dal i ddisgyn, a phwyswn ar bobl o'r newydd i danysgrifio, boed fel unigolion neu fel eglwysi. Mae modd tanysgrifio ar y wefan: https://cristnogaeth.cymru/cristion/

Bydd y rhifyn cyfredol yn rhoi croeso eisteddfodol i ni, gan fod y rhan fwyaf o'r cyfranwyr o ardal sir Benfro y tro hwn. Dyma gyflwyniad y golygyddion, Eurfyl a Sian:



'Croeso i ardal y Wes Wes. Mae'n fraint enfawr i ni fel golygyddion gael eich croesawu chi i'n hardal ni ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ym mis Awst, bydd ardal y Garreg Las yn croesawu Cymru gyfan a'r tu hwnt wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol ddychwelyd i Sir Benfro. Bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal yn ardal Llantwd ddechrau Awst, mewn lleoliad sy'n llawn hanes, diwylliant a harddwch naturiol. Mae'r Eisteddfod eleni yn arbennig iawn gan ei bod yn nodi 850 mlynedd ers yr eisteddfod gyntaf a gynhaliwyd yn 1176 yng Nghastell Aberteifi, ddim ond ychydig filltiroedd o'r Maes.

Mae'r enw, Eisteddfod y Garreg Las, yn cyfeirio, wrth gwrs, at y garreg sy'n hollol unigryw i ardal y Preselau. Mae hefyd yn adlewyrchu cymeriad unigryw'r ardal. Mae'r enw'n cysylltu â threftadaeth hynafol Cymru ac yn symbol o gryfder, sefydlogrwydd a pharhad. Fel carreg sy'n sefyll yn gadarn drwy'r canrifoedd, mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru wedi parhau er gwaethaf pob her. Mae'r Eisteddfod yn gyfle i ddathlu'r etifeddiaeth honno a'i throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Mae ardal Llantwd ei hun yn lle arbennig. Mae'r ardal, yng ngogledd Sir Benfro, yn cyfuno cefn gwlad gwyrddlas, arfordir godidog a chymunedau croesawgar. Mae'n gorwedd ar groesffordd rhwng Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, gan ddod â gwahanol draddodiadau a straeon ynghyd mewn un dathliad mawr o Gymreictod.

Mae i'r ardal arbennig yma wreiddiau Cristnogol dwfn hefyd, a byddwch yn clywed tipyn am hynny yn y rhifyn yma. O hanes un o gapeli anghydffurfiol hynaf Cymru, Rhydwilym, i'r gwaith arbennig sy'n digwydd yn Mount Zion, Aberteifi. Mae dau sy'n gyfarwydd iawn â'r Maes eleni wedi cyfrannu, sef Fflur James, sydd â'i chartref ddim ond tafliad carreg o'r Maes, a John 'Cwmbetws' Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, sydd wedi bod yn hynod brysur yn paratoi ers blynyddoedd erbyn hyn ac yn gweld y Maes o ffenest ei gegin. Hefyd, rydym wedi mynd dipyn ymhellach wrth i ni glywed am waith Catharine Nagashima allan yn Zushi, Siapan.

I gloi'r rhifyn, mae gan yr Archdderwydd Mererid Hopwood ddarn o farddoniaeth arbennig a luniodd i ddathlu darn o gelf gan Meirion Jones. Mae'r gwaith celf a'r farddoniaeth yn gampweithiau.

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod bydd miloedd o bobl yn ymweld â'r Maes. Bydd cystadlaethau, perfformiadau, arddangosfeydd, stondinau a digwyddiadau arbennig yn llenwi'r safle o fore tan nos. Ond, yn fwy na dim, bydd pabell Cytûn ar agor unwaith eto. Dewch draw i weld beth sydd gan ein hardal i'w gynnig. Edrychwn ymlaen am lansiad *Y Peder Ifengyl* gan Lyn Lewis Dafis ac oedfaon di-ri. Edrychwn ymlaen, wrth gwrs, am yr oedfa ar y bore Sul cyntaf yn y Pafiliwn am 9.30yb a'r Gymanfa Ganu yn y nos o dan arweiniad medrus Daniel Rees, sydd wedi cyfrannu erthygl i'r rhifyn yma.

Ond, wrth inni edrych ymlaen at Awst 2026, mae un neges yn sefyll uwchlaw popeth arall: croeso. Croeso i'r rhai sy'n adnabod yr Eisteddfod ers blynyddoedd ac i'r rhai sy'n dod am y tro cyntaf. Croeso i deuluoedd, ffrindiau, artistiaid, cystadleuwyr ac ymwelwyr o bob cefndir. Yn ardal y Garreg Las, bydd y drysau ar agor, y baneri'n chwifio a'r croeso Cymreig ar ei orau. Dewch i ddathlu ein hiaith, ein diwylliant a'n cymuned gyda'n gilydd. Mae'r Garreg Las yn eich disgwyl.'

# Ymweld â Thaiwan

## gan Anna Jane Evans, Swyddog Eciwmenaidd EBC

Yn ystod y flwyddyn cefais y fraint o gynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng nghyfarfod y Taiwan Ecumenical Forum (TEF) yn Nhaiwan, gyda chynrychiolwyr eglwysig ac ecwmenaidd o wahanol rannau o'r byd yn bresennol. Cynhaliwyd y ddau gyfarfod gefn yn gefn yn ninas Changhua rhwng 15 a 23 Ebrill eleni.' Thema'r fforwm oedd: 'The Right to Self-determination and the Missionary Role of the Church in the Geopolitical Context of Taiwan'.

Fe ddenodd y cyfarfodydd tua chant o gynrychiolwyr at ei gilydd o dros ugain o wledydd i geisio meithrin dealltwriaeth eciwmenaidd o sefyllfa'r eglwys yn Nhaiwan a chydgerdded fel eglwysi byd-eang efo'r eglwys honno a'i phobl wrth geisio cyfiawnder a heddwch.

Roedd y fforwm yn gyfle pwysig i wrando ar leisiau Cristnogion Taiwan wrth iddynt fyfyrio ar alwad yr eglwys mewn cyd-destun gwleidyddol a rhyngwladol hynod fregus. Yn ei bregeth agoriadol, dywedodd y Parch. Ddr Jooseop Keum, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang, (CWM), mai: 'the most powerful tool of resistance is faithfulness', sef mai arf cryfaf gwrthsefyll yw ffyddlondeb, gan ein hatgoffa o anogaeth Paul i beidio â blino ar wneud daioni.

Yn ystod y cyfarfodydd cawsom astudiaethau Beiblaidd, sgyrsiau a thrafodaethau dwys am sefyllfa Taiwan, ynghyd â phrofiadau cymunedau eraill fel Gorllewin Papua ac Ynysoedd Marshal, sydd yn byw dan bwysau gwleidyddol a bygythiadau grymoedd mwy. Clywsom hefyd dystiolaethau dirdynnol am gyfnod y White Terror yn Nhaiwan rhwng 1947 a 1992 — 38 mlynedd dan gyfraith rhyfel, gormes a thawelu gwrthwynebiad gwleidyddol.

Un o'r sylwadau mwyaf grymus a glywyd yn ystod y fforwm oedd geiriau merch ifanc o Daiwan a ddywedodd: 'Our deepest fear is not the threat of conflict but the silence which might follow.' Roedd y geiriau hyn yn adlewyrchu'r ofn y gallai'r gymuned ryngwladol droi ei golwg oddi wrth ddioddefaint neu wrthdaro posibl. Nodwyd yn aml yn ystod y trafodaethau fod methiant y byd i atal hil-laddiad Gaza wedi dyfnhau'r ofn hwnnw ymysg llawer.

Mi ges i gyfle i ymateb ar ddiwedd y fforwm a chyfeiriais at sylw'r ferch ifanc hon, gan ddweud ein bod yn cynnal tawelwch ar y maes yng Nghaernarfon bob nos Sul. Addewais y byddwn yn mynd â baner Taiwan yno efo baneri Palesteina/ Libanus/ Iran ac yn eu cynnwys yn y tawelwch fel arwydd o gefnogaeth a chydsefyll. Roeddynt yn hynod o falch o hynny. Felly, dwi wedi mynd â'r faner i eglwysi ar ôl dod adre hefyd er mwyn hybu dealltwriaeth o'u sefyllfa.



*Rhannu am safiad Eglwys Bresbyteraidd Taiwan yn henaduriaeth Dyffryn Clwyd yng Nghapel Bethania, Rhuthun*

Pwysleisiodd y fforwm hawl naturiol pobl Taiwan – fel pob cenedl a chymuned arall – i benderfynu eu dyfodol eu hunain yn rhydd, heb orfodaeth na bygythiad gan unrhyw ymerodraeth neu rym arall.

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi cydgerdded yn agos ag Eglwys Bresbyteraidd Taiwan ers blynyddoedd lawer, ac roedd yn fraint cael ailgadarnhau ar ran EBC ein hymrwymiad i'r berthynas honno o gyfeillgarwch, partneriaeth a gweddi.

Yn ei bregeth i gloi, cawsom ein hatgoffa gan y Parch. Philip Peacock, Ysgrifennydd Cyffredinol Cymundeb Byd-eang yr Eglwysig Diwygiedig (WCRC), o eiriau'r gân: 'Walk together children, don't you get weary! / There's going to be a better day!' Ac felly daeth y fforwm i ben gyda'r un alwad ag a glywyd ar y dechrau — i barhau'n ffyddlon, i beidio â blino ar wneud daioni, ac i dystio i obaith Crist mewn byd ansicr.

Cyn i nifer o'r cynrychiolwyr gyrraedd Taiwan, derbyniwyd negeseuon bygythiol a sinistr gan unigolion neu grwpiau dienw yn ceisio rhoi pwysau ar gyfranogwyr i beidio mynychu'r fforwm. Yn sgil hyn, cyhoeddodd CWM a WCRC ddatganiad ar y cyd yn amddiffyn uniondeb y fforwm ac yn condemnio'r ymgyrchoedd bygwth hynny. Fe nodwyd hyn yn Sasiwn y Gogledd eleni yn yr Wyddgrug, gan roi cefngoaeth ein henwad i'r datganiad hwnnw ac i Eglwys Bresbyteraidd Taiwan wrth iddi dystio'n ffyddlon mewn cyfnod heriol.

Cadarnhawyd y gefnogaeth honno yn ein Cymanfa Gyffredinol ym Mhorthmadog eleni. Rhoddir dolen isod at y datganiad llawn gan CWM ac WCRC:

https://www.cwmission.org/news/spotlights/a-joint-statement-on-the-integrity-of-the-taiwan-ecumenical-forum-tef-and-misleading-communications-against-it/

Tra oeddwn yn Nhaiwan cefais gyfle i fynychu Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Taiwan oedd yn digwydd ar ôl y fforwm. Roedd 600 o gynrychiolwyr yno a bwrlwm mawr. Cafwyd trafodaethau diddorol, gan gynnwys ynglŷn â dyfodol addysg ddiwinyddol ac awydd gan un o'r colegau diwinyddol i geisio creu cysylltiad i gael astudiaethau beiblaidd achlysurol ar-lein gyda'n gilydd.

Cawsom y fraint o gael ymweliad gan Arlywydd Taiwan, Dr Lai Ching-Te, yn ystod y Gymanfa hefyd, ac roedd y berthynas o gyd-ddeall a pharch yn amlwg iawn o'r ddwy ochr.



*Dangos baner Taiwan yn yr wylnos heddwch wythnosol yng Nghaernarfon*

Dyma ymateb Carys Humphreys, sydd wedi bod yn genhades ac wedi byw yn Nhaiwan ers dros 40 mlynedd, i'r rhannu am Daiwan yng Nghymru: 'Diolch i ti, AJ, am ddod i Taiwan i wrando, i rannu ac am weithredu mor gyflym!'

# Cyrsiau Haf Canolfan Plant ac Ieuenctid Coleg y Bala




Dyma'r cyrsiau Cymraeg sy'n digwydd yng Nghanolfan Plant ac Ieuenctid Coleg y Bala yn y Bala yr haf yma. Byddai plant ac ieuenctid eich eglwysi wrth eu boddau yno! Cofiwch eu hannog ac gweddïo dros y cyrsiau cyn ac wrth iddyn nhw ddigwydd. Mae'r arweinwyr ifanc eisoes wedi cyfarfod ar benwythnos er mwyn addoli a gweddïo a pharatoi ar gyfer yr haf gorau erioed!

## Cwrs Haf 2026:

27ain o Orffennaf – 31ain o Orffennaf.
I ieuenctid 11-15 oed!

Am 4 noson yn niwedd Gorffennaf bydd sesiynau yn llawn gemau newydd gwirion. Bydd crefft, amser i ymlacio yn y stafell gemau, chwaraeon, amser i ddal fyny hefo hen ffrindiau ac i wneud ffrindiau newydd. Bydd nofio, trip, Noson 'Hwyl' a lot, lot mwy. Byddwn ni hefyd yn cario 'mlaen i edrych ar y Beibl gyda'n gilydd mewn ffordd hawdd ei deall a pherthnasol i fywyd heddiw!
Y gost yw £140 sy'n cynnwys bob dim! (hanner pris i'r 2il / 3ydd person o'r un teulu.)
Archebwch le heddiw fan hyn:
https://forms.gle/YmapXmGBF2t1tcng9

## Anhrefn Awst:

Mae Anhrefn Awst yn wyliau i blant 8–11 oed. Mae'n wersyll Cristnogol 3 noson sydd â rhaglen lawn o weithgareddau, gemau gwirion, sialensau tîm, nofio, sioe dalent, disgo tawel, gemau dŵr, digon o amser i ymlacio a chwarae gemau cyfrifiadur, storïau o'r Beibl a hefyd bydd trip i bawb. Y gost yw £108 (1/2 pris i'r 2il/3ydd plentyn o'r un teulu).

Ond – yn anffodus i rai fyddai wedi hoffi dod, mae'r cwrs yn un poblogaidd ac yn llawn yn barod. Cysylltwch efo Coleg y Bala am fwy o fanylion ac i holi am unrhyw restr wrth gefn.

## Souled Out:


Dyma'ch gwahoddiad i SOULED OUT 26! Digwyddiad haf 5 noson i ieuenctid 15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc ydy Souled Out. Rydyn ni'n edrych ymlaen i'ch croesawu chi eto am haf i'w gofio!

Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth ac i gofrestru!
www.souledoutcymru.net/haf/



# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

## Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 30

# Ymson Tamar

Clywais bobl yn gwawdio fy enw. Rhannwyd fy stori droeon drwy lygaid dynion, ond heddiw rhannaf hi â'm llais fy hun. Felly, dewch yn nes i wrando.

Rhoddwyd fi i ddyn milain. Cyn pen dim ro'n i'n weddw. Gorfu imi briodi â'i frawd. Eto, bu farw hwnnw. Bûm wedyn yn aros am y trydydd brawd (roedd e'n rhy ifanc). Addawodd Jwda, tad y tri brawd, y byddai'r drydedd briodas yn digwydd, felly es adre am gyfnod at fy nhad.

Aeth y dyddiau yn fisoedd a'r misoedd yn flynyddoedd. Fe gymerodd amser imi sylweddoli eu bod wedi anghofio amdanaf. Gwnaethpwyd y penderfyniadau i gyd drosof, a minnau'n gorfod ymdopi. Ro'n i'n fregus, a phan ddaeth yn amlwg nad oedd Jwda am gadw at ei air, torrais fy nghalon. Doedd gen i neb yn eiriolwr, neb i ofalu amdanaf; dim etifeddiaeth, dim gobaith.

Felly, fe benderfynais bod yn rhaid imi wneud rhywbeth. Pa ddyfodol oedd gen i yn byw fel hyn? Nid dialedd oedd ar fy meddwl, ond chwarae teg. Gwrthodais ddiflannu o'r golwg, a gadael i ddifrifoldeb difaterwch Jwda effeithio ar fy hunan-werth i. Rhoddais fy meddwl ar waith a chynllunio popeth o flaen llaw. Rwy'n barod i gyfaddef erbyn hyn fy mod yn gyfrwys. Ro'n i'n gwybod yn reddfol sut oedd dal Jwda. Gwyddwn hefyd mai'r unig ffordd i wneud hynny oedd cuddio fy wyneb, mabwysiadu osgo putain, a chasglu prawf tra oeddwn yng nghwmni Jwda. Felly, eisteddais yn y llwch ar ochr y ffordd ac aros. 'Sdim angen imi fynd i fanylu ar beth ddigwyddodd; rwy'n siŵr y gallwch ddyfalu.

Llwyddodd fy nghynllun, bob cam ohono. Ro'n i'n gobeithio na fyddai pethau'n chwalu'n deilchion imi. Fe ges fy meirniadu'n llym pan ddaeth hi'n amlwg fy mod yn disgwyl babi. Cyhuddwyd fi ac roedd gorfod wynebu meddwl am y ddedfryd yn hunllefus: cael fy llosgi. Fedrwch chi gredu'r peth? Mae pobl yn aml yn ffafrio gweithredu cosb yn hytrach na cheisio cael dealltwriaeth. Ond mae gan y gwir ffordd o ddod i'r wyneb bron bob tro, ac fe wnes yn siŵr o hynny.

Pan welodd Jwda'r dystiolaeth a sylweddoli pwy oeddwn i, fe ddwedodd rywbeth annisgwyl: "Mae hi'n fwy cyfiawn na fi." Yr hyn a wnaeth mewn gwirionedd oedd cydnabod a chyfaddef ei gam, ond heb ddweud hynny'n gyhoeddus. Roedd yntau'n glyfar hefyd. Ond fe ddiolchais i Dduw oherwydd fe'm hachubwyd.

Gwn y bydd rhai ohonoch efallai'n fy nghlywed ac yn deall llawer mwy nag y mae pobl yn ei ddeall. Bydd eraill yn methu dygymod â chlywed oherwydd bod fy stori i wedi'i chadw yn rhywle'n ddwfn y tu mewn iddyn nhw hefyd.

Oherwydd, rydych chi'n gweld, mae rhai yn y byd hwn wastad yn cael bai ar gam. Mae rhai wedi gorfod cadw'n dawel. Gorfodwyd rhai i beidio â dweud a'u siarsio i feddwl am enw da'r teulu, ystyried beth fyddai'n digwydd petaent yn rhannu, cofio'r cywilydd.

Fe fydd rhai rydych yn eu hadnabod yn byw ag atgofion erchyll. Efallai y byddwch yn eistedd ar y bwrdd nesaf atynt neu yn yr un rhes â nhw wrth addoli. Bydd rhai'n cario briwiau ac yn ceisio'u cuddio. Mae crafu craith yn brifo, felly haws yw cadw'n dawel. Mae tawelwch yn aml yn saffach na sain geiriau.

Gadewch i fy stori eich atgoffa nad yw'r darlun bob amser yn berffaith. Gall fod yn amlhaenog, yn llawn lliwiau amrywiol: golau a thywyll. Ond mae Duw yn y darlun. Ac mae Duw yn eich darlun chi: yn ddestlus neu'n anniben, yno y mae ein Duw ni.

Cefais fy anghofio gan bobl, ond fy nghofio gan Dduw. Cofiwch, os gwelwch yn dda: Duw, cariad yw.

**Holi**

- Beth sy'n sefyll allan fwyaf i chi o ran ymddygiad Tamar? A yw ei gweithredoedd yn dangos rhuddin cymeriad yn eich barn chi?
- Sut mae'r stori hon yn herio ein dealltwriaeth o gyfiawnder? Oes lle i ni fod yn feirniadol weithiau, neu ydy hynny'n gysyniad rhy anodd ac anghyfforddus?
- Daeth Tamar yn rhan o linach Iesu. Ydy Duw ar waith yng nghanol gweithredoedd amherffaith a sefyllfaoedd blêr weithiau?
- Beth mae stori Tamar yn ei ddweud wrthym am y bobl ar y cyrion? Sut ddylai'r eglwys ymdrin â hyn heddiw?

**Gweddi**

**Dduw caredig,**
rwyt yn gweld y rhai y mae
cymdeithas heb eu gweld.
**Dduw cyfiawn,**
rwyt yn dymuno bod pawb yn
cael chwarae teg.
**Dduw graslon,**
rwyt yn adfer sefyllfaoedd.
**Dduw amyneddgar,**
rwyt yn parhau i dderbyn pawb.
Gwna ni yn bobl sy'n codi llais,
yn rhwydweithio gras ac yn
ymddiried ynot. Amen

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 12 Gorffennaf 2026**

BBC radio cymru | S4C

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 12 Gorffennaf,**
**am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Aled Davies, Chwilog

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 12 Gorffennaf**
**am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Rhian Linecar, Caerdydd

# Er Cof Annwyl am Thomas Isaac Williams (1930–2026)



Ddydd Mercher, 20 Mai, daeth taith ddaearol cawr addfwyn i ben, a chroesawodd y nefoedd adref was ffyddlon: Tom, gŵr annwyl i Doris; tad ymroddedig i Geraint, Gwyn ac Elfed; taid cariadus, cyfaill ffyddlon, a dyn o ffydd ddiysgog.

Nid fu ei stori bob amser yn hawdd. Wedi colli ei rieni yn blentyn, dysgodd yn gynnar fod bywyd yn gallu bod yn greulon. Eto, o'r dechreuad anodd hwnnw, lluniodd Duw ynddo gryfder cymeriad a'i cynhaliodd drwy naw deg chwech o flynyddoedd rhyfeddol. Cerddodd drwy fywyd gyda phenderfyniad tawel, heb geisio clod, heb ofyn am gydnabyddiaeth, ond bob dydd yn dewis bod yn ffyddlon. Nid rhywbeth yr oedd yn ei gredu yn unig oedd ffydd iddo, ond cwmpawd a arweiniai ei fywyd.

Drwy ei waith gyda Beiblau'r Gideoniaid ac elusennau eraill, cludodd Air Duw i ysgolion ledled Cymru, gan roi yn nwylo pobl ifanc y neges o obaith a'i cynhaliodd ef drwy gydol ei oes. Roedd yn deall y gallai un Beibl, un adnod, un hedyn o ffydd, newid bywyd am byth. Ac felly, bu'n hau'n ffyddlon.

Roedd wrth ei fodd ar lawntiau agored y cwrs golff, yn mwynhau her y gêm, y cyfeillgarwch a ddeuai yn ei sgil, a llawenydd taith gerdded dan awyr Cymru.

Gwerthfawrogai ei annibyniaeth, gan yrru car ymhell i'w nawdegau, gan wrthod gadael i oedran ei ddiffinio ac wynebu bywyd â'r un penderfyniad cadarn ag a nodweddai ei flynydoedd iau. Ond, yn fwy na dim arall, roedd yn caru pobl. Roedd ei wyrion a'i wyresau yn adnabod ei gynhesrwydd, ei ddoethineb, ei hiwmor caredig, a'r sicrwydd o gael eu caru'n ddwfn. Roedd ei deulu'n ei adnabod fel dyn gonest ag uniondeb llwyr — cadarn, dibynadwy a gwir.

Ddwy flynedd yn ôl, aeth ei annwyl Doris o'i flaen. Daeth y blynyddoedd ers hynny â'u hunigrwydd eu hunain, ond parhaodd ef yn ffyddlon, gan lynu'n gadarn wrth addewidion Crist. Ac yn awr, mae'r gwahanu wedi dod i ben. Gallwn ddychmygu'r aduniad llawen hwnnw — dwy law yn estyn at ei gilydd unwaith eto, dwy galon yn un eto, ym mhresenoldeb y Gwaredwr yr oedd y ddau yn ei garu.

I'r rhai sydd ar ôl, mae tristwch heddiw. Ni all naw deg chwech o flynyddoedd fyth ymddangos yn ddigon hir pan fo bywyd wedi bod mor werthfawr. Ond, ochr yn ochr â'n galar, saif ein diolchgarwch, diolchgarwch am dad a ddangosodd inni werth dyfalbarhad, am ŵr a fu'n esiampl o ymroddiad, am daid a rannodd ei gariad yn hael, ac am Gristion yr oedd ei fywyd yn adlewyrchu'r Un yr oedd yn ei wasanaethu.

Dywed y Beibl: 'Yr wyf wedi ymladd y frwydr dda, yr wyf wedi gorffen y ras, yr wyf wed cadw'r ffydd' (2 Timotheus 4:7).
Mae'r ras wedi'i gorffen.
Mae'r gwaith wedi'i gyflawni.
Mae'r ffydd wedi troi'n olwg.

Ac er ein bod yn ffarwelio am gyfnod, nid ffarwél am byth ydyw. Oherwydd mae'r hadau a heuodd yn parhau i dyfu, mae'r bywydau a gyffyrddodd yn parhau i ddwyn ffrwyth, a bydd yr etifeddiaeth o ffydd a adawodd ar ei ôl yn parhau drwy ei blant, ei wyrion a'i wyresau, a phawb a'i hadnabu.

*Rhannwyd y deyrnged hon gan Elfed Williams i'w dad yn y Capel Mawr, Dinbych, 18 Mehefin, lle roedd Tom yn aelod ers symud yno yn ôl i ardal ei febyd. Bu Tom yn rheolwr y banc yn Llanrwst ac yn flaenor yng Nghapel Seion ers 1980.*

*Bydd darllenwyr* Y Goleuad *yn cofio cyfraniad Tom gan iddo anfon erthyglau yn annog y darllenwyr gyda rhyw brofiad ac adnod berthnasol am flynyddoedd lawer. Bydd eraill yn ei adnobod fel pregethwr lleyg cynnes ei neges a hefyd am ei ymroddiad a'i gywirdeb fel trysorydd elusen Coleg y Bala am flynyddoedd helaeth. Yr oedd Tom yn wir fel y banc! Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Geraint, Gwyn ac Elfed, ei feibion, a'u teuluoedd i gyd.*

(*Gol.*)

## Gweithiwr Ieuenctid a Swyddog Datblygu Ymestyn Allan

## Eglwys Gymraeg Canol Llundain

Mae Eglwys Gymraeg Canol Llundain, Oxford Circus, yn chwilio am unigolyn brwdfrydig, egnïol ac ymroddedig sy'n arddel ffydd Gristnogol i ymuno â ni fel Gweithiwr Ieuenctid a Swyddog Datblygu Ymestyn Allan.

Bydd y rôl yn cynnig cyfle cyffrous i gryfhau a meithrin perthynas â phobl ifanc Cymraeg eu hiaith sy'n byw yn Llundain, gan eu cefnogi a'u hannog i ymgysylltu â bywyd yr eglwys a'r gymuned Gristnogol ehangach.

Swydd fydd hon am gyfnod cychwynnol o 12 mis, gydag adolygiad perfformiad ar ôl 6 mis.

Bydd y termau cyflogi i'w trafod yn ôl cymwysterau a phrofiad.

Dyddiad dechrau: Medi 2026

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 13 Gorffennaf 2026

Am fwy o fanylion, swydd-ddisgrifiad llawn a ffurflen gais, cysylltwch â'r Gweinidog, Y Parchg Robert Nicholls, ar: rob.nicholls75@gmail.com

# Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

## Digwyddiadur y Llywydd (Hydref 2025–Mai 2026)

1. Cefais gyfle i ymuno â chyfeillion yr Ystafell Fyw ar gyfer ei seremoni/gwasanaeth Coeden Gobaith/Tree of Hope ychydig cyn y Nadolig. Cafwyd cyfle i ddysgu a gwybod am y gwaith arbennig a wneir gan yr elusen. Roedd amryw o'r cleientiaid yn bresennol ac yn barod iawn i rannu eu profiadau a'u tystiolaeth i waith yr Ystafell Fyw. Diolchwyd i Wynford Ellis Owen yn arbennig am ei waith a'i arweiniad.




2. Ers hynny mae Wynford wedi ei anrhydeddu â Gwobr Times Sternberg 2026, gwobr a ddyfernir i bobl am eu gwasanaeth ar adeg o'u bywyd pryd y dylasent fod yn mwynhau hamdden a seibiant. Gwyddom, wrth gwrs, am ei wasanaeth clodwiw ym maes gofal a chyngor a chwnsela ac am ei rôl greiddiol i waith yr Ystafell Fyw.

3. Yn dilyn trafodaeth yn y Cyngor ym mis Tachwedd, penderfynwyd ein bod yn cysylltu â'r Archesgobion Cherry a Mark i'w holi am y priodoldeb o lunio datganiad/neges Nadolig ar y cyd. Bu Cynan Llwyd yn ddolen rhyngom a chefais innau'r fraint o lunio neges ddrafft a dyfodd yn well wrth i'r Archesgobion ei golygu.

4. Mynychais y digwyddiad yn y Deml Heddwch ar ddiwrnod cofio'r Holocost ym mis Ionawr. Pontio'r Cenedlaethau oedd y thema. Mater sensitif iawn yw hwn, wrth gwrs, yn enwedig o gofio'r tensiynau sydd yn Israel/Palestina ac ar draws cynifer o wledydd y byd.

5. Mynychais ddigwyddiad yn y Senedd a drefnwyd gan Gynhadledd Esgobion Pabyddol Cymru a Lloegr. Cyfle i rwydweithio a ffurfio adnabyddiaeth.

6. Llofnodais yn enw'r Cyngor ddatganiad wedi ei lunio gan yr Archesgob Mark ar ran cymunedau ffydd Cymru i'w anfon i'r Senedd yn wyneb y drafodaeth i ganiatáu'r hawl i farw yn gofyn iddynt nacáu'r hawl honno. Tybiwn, yn gywir, gobeithio, y buasai eglwysi'r Cyngor yn cytuno â'r neges honno.

7. Yr oedd yn ddrwg iawn gennyf imi fethu derbyn gwahoddiad i Iftar oedd yn agor cyfnod Ramadan gan fod awydd pendant i godi pontydd rhwng y cymunedau ffydd.

8. Profiad arbennig oedd bod yn y Deml Heddwch i nodi lansiad Cymru Global, sef y WCIA gynt (Welsh Centre For International Affairs). Mewn cyfnod o densiynau a diffyg cyd-fyw enbyd yn ein byd, dyma asiantaeth y mae angen inni wneud llawer mwy o ddefnydd ohoni.




9. Eto yn y Deml Heddwch trefnwyd cyfarfod gan ein cyfeillion Islamaidd ar gyfer y crefyddau Abrahamaidd a chyfle i lofnodi datganiad ar drothwy'r etholiad yn apelio am ymrwymiad i sicrhau bod Cymru'n genedl lle mae heddwch a chyfiawnder a brawdgarwch yn ffynnu ac yn sail i bob bywyd.

10. Grŵp Galluogi Cytûn. Bydd adroddiad Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, a gyflwynwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, yn ymddangos yn *Cenn@d* yn fuan fel rhan o adroddiad Cyfarfod Blynyddol Cytûn a gynhaliwyd ddiwedd mis Mehefin.

11. Mae'n addas ein bod ni'n diolch i Dr Jenny Hurd am ei llywyddiaeth wrth i'w thymor dynnu tua'i derfyn a dymuno'n dda i un o'n pobl ni, Kathryn Stowers o Gasnewydd, sy'n ei holynu.

12. Fforwm Cymunedau Ffydd. Fel y gwyddoch, wrth gwrs, mae tymor Jane Hutt fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb wedi dod i ben. Daw Sioned Williams i'r rôl honno bellach.

*Dyfrig Rees*

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** **Aled Davies**: aled@ysgolsul.com
**Huw Powell-Davies**: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

**Gwefan: www.cennad.cymru** | **Facebook: CennadCymru** | **X: @CennadCymru**

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan **Eglwys Bresbyteraidd Cymru** ac **Undeb Bedyddwyr Cymru**.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.